

Lansio rhaglen anemia amdriniaethol

Gorffennaf 2023


Byrddau Iechyd ar draws Cymru yn cyflawni newid i wella Gwasanaethau Rheoli Anemia

Mae byrddau iechyd Cymru yn darparu gwerth i gleifion o ran canlyniadau a phrofiad, trwy ddatblygu gwelliannau mewn gwasanaethau rheoli anemia, gyda phawb yn dangos ymrwymiad i safoni arferion a pharhau i wella eu gwasanaethau i sicrhau gofal teg i gleifion ar draws Cymru.

Wrth sefydlu'r prosiect hwn, rydym wedi gweld rhywfaint o enghreifftiau gwych o optimeiddio rheoli anemia amdriniaethol ym mhob Bwrdd Iechyd, sy'n gyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir.

Mae adran cardiothorasig BIP Bae Abertawe wedi dangos eu bod yn rhagweithiol wrth weithredu a hyrwyddo'r llwybr anemia cenedlaethol o fewn ei arbenigedd, ac wedi dangos brwdfrydedd i gefnogi newid drwy hyrwyddo'r llwybr ar draws y Bwrdd Iechyd.

I weld y llwybr a chael mwy o wybodaeth am reoli anemia yng Nghymru, cliciwch [yma](#).





Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi sefydlu clinig newydd i weinyddu haearn trwy ddrip mewnwythiennol, i gefnogi gofal cleifion meddygol a llawfeddygol. Sefydlwyd y gwasanaeth cleifion allanol hwn i ddarparu'r angen cynyddol am weinyddu haearn trwy ddrip mewnwythiennol. Mae'n wasanaeth sydd yn cael ei arwain gan nyrs, sy'n cefnogi pob

arbenigedd o fewn ei Fwrdd Iechyd, ac sy'n gweinyddu haearn yn effeithiol a'n amserol pan fo angen. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn ymchwilio i weithredu Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion, i gefnogi staff i ddarparu triniaeth gynnar gyda haearn drwy'r geg.

Mae cyfarwyddiadau grŵp cleifion yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau penodol i grwpiau o gleifion sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw, heb bresgripsiwn. Nod y canllaw hwn yw sicrhau bod cyfarwyddiadau grŵp cleifion yn cael eu defnyddio yn unol â deddfwriaeth, fel bod cleifion yn cael mynediad diogel a chyflym i'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt


National Institute for Healthcare and Care Excellence (2023).
<https://www.nice.org.uk/Guidance/MPG2>
<https://www.nice.org.uk/Guidance/MPG2>



Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio fferyllwyr a nyrsys fel rhagnodwyr annibynnol i gefnogi presgripsiynau haearn yn eu hysbytai. Mae dull amlddisgyblaethol o ehangu sgiliau staff anfeddygol i leihau'r ddibyniaeth ar gefnogaeth anesthetyddion ymgynghorol, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf ar gyfer cyflenwi haearn.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn datblygu clinig haearn mewnwythiennol dan arweiniad nyrs, i gefnogi gwasanaeth amdriniaethol canolog. Mae cynlluniau ar y gweill i ganoli gwasanaethau cyflenwi haearn mewnwythiennol, gyda chymorth rhagnodi gan ragnodwyr annibynnol sy'n nyrsys a fferyllwyr. Mae cynlluniau ar y gweill i wella sgiliau nyrsio amdriniaethol drwy ddarparu hyfforddiant mewn caniwleiddio a gweinyddu haearn mewnwythiennol, gyda'r nod o leihau'r ddibyniaeth ar gymorth anesthetydd ymgynghorol.





Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi ailgychwyn ac ehangu eu llwybr anemia amdriniaethol ar ôl effeithiau COVID ar ei wasanaeth. Mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi datblygu gwasanaeth asesu cleifion cyflym dan arweiniad nyrs arbenigol, sy'n galluogi i gleifion gael eu hasesu a'u trin am anemia cyn gynted â phosibl.

Mae mater Llwybr Cymru Gyfan wedi ychwanegu pwysau y tu ôl i'r gwasanaeth clinigol, ac mae gweithdrefnau mwy effeithiol bellach wedi cael eu datblygu i gefnogi rheoli anemia yn ei ysbytai.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dangos cydweithio rhagorol rhwng arbenigwyr TG a phatholeg wrth gefnogi gwelliant, trwy weithredu Set Brawf Anemia Cymru gyfan yn ei ysbytai.

Yn aml, mae asesu am anemia yn golygu bod yn rhaid i gleifion ail-fynychu clinigau i gael profion gwaed pellach. Byddai gweithredu proses sgrinio anemia amdriniaethol Cymru Gyfan yn cefnogi'r gofyniad i osgoi wrth i brofion atgyrchion awtomatig gael eu cynnal pe byddai anghysonderau mewn profion gwaed yn cael eu hamlygu, gan helpu i leihau'r baich ar y gwasanaeth asesu amdriniaethol o ymweliadau clinig cleifion ychwanegol y gellir eu hosgoi.



Er bod llawer o wasanaethau ysbyty wedi'u cyfyngu, mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd deinamig yn gyrru gwelliannau arloesol mewn gwasanaethau rheoli anemia ymlaen. Mae angerdd gwirioneddol i gyflawni newid, ac rydym wedi gweld brwdfrydedd anhygoel gan staff i wella'r gofal a ddarperir i'w cleifion.

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddsbarthu ar ran y Tîm Anemia Amdriniaethol.

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â'r Tîm Iechyd Gwaed: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

